Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

# Grant Gweithgareddau a Digwyddiadau yng Nghanol y Dref

# 2023 – 2024

# Nodiadau Canllaw

**PWRPAS Y GRANT**

Mae'r Grant Gweithgareddau a Digwyddiadau yng Nghanol y Dref wedi'i sefydlu i gefnogi canol trefi i gynyddu nifer yr ymwelwyr drwy drefnu digwyddiadau a gweithgareddau sy'n dod â mwy o bobl i ganol y dref. Rydym yn cydnabod bod busnesau canol tref wedi ac yn parhau i wynebu amser heriol yn economaidd felly drwy roi hwb i weithgaredd yng nghanol y dref, bydd o fudd i'r busnesau gyda mwy o ymwelwyr.

Mae'r prosiect hwn ynghyd ag 8 o brosiectau eraill yn ffurfio pecyn o ymyrraeth sy'n cael ei adnabod fel 'Rhaglen Fuddsoddi Canol Tref - Sir y Fflint'. Mae'r rhaglen hon wedi'i thargedu at 7 canol tref ar draws Sir y Fflint (Bwcle, Cei Connah, y Fflint, Treffynnon, Yr Wyddgrug, Queensferry a Shotton), a wnaed yn bosibl gyda chyllid a sicrhawyd o 'Gronfa Ffyniant Gyffredin' Llywodraeth y DU. Prif nod y rhaglen gyffredinol yw cefnogi bywiogrwydd ac amrywiaeth canol trefi ar draws y sir a chyfrannu at wella cynnig canol tref a chynnydd yn nifer yr ymwelwyr.

Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (neu y Gronfa) yn biler canolog o agenda Ffyniant Bro uchelgeisiol llywodraeth y DU ac elfen sylweddol o'i gefnogaeth i fannau ar draws y DU. Mae'n darparu £2.6 biliwn o gyllid newydd ar gyfer buddsoddi erbyn Mawrth 2025, gyda phob ardal yn y DU yn derbyn dyraniad o'r Gronfa drwy fformiwla ariannu yn hytrach na chystadleuaeth. Bydd yn helpu mannau ar draws y sir i gyflawni deilliannau gwell ac mae'n cydnabod bod hyd yn oed rhannau mwyaf ffyniannus y DU yn cynnwys pocedi o amddifadedd ac angen cefnogaeth.

Bydd y Grant Gweithgareddau a Digwyddiadau yng Nghanol y Dref (isafswm o £500 a mwyafswm o £10,000) ar agor i geisiadau o fis Medi 2023 hyd at fis Rhagfyr 2024. Os bydd yr holl gyllid yn cael ei ddyrannu cyn hynny, byddwn yn cau'r broses ymgeisio i geisiadau newydd, felly sicrhewch eich bod yn ymgeisio yn ddigon buan rhag i chi gael eich siomi.

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

POWERED BY LEVELLING UP

Bydd y cynlluniau'n cael eu cyflwyno i Banel Adfywio Sir y Fflint ar gyfer penderfyniad am y cais grant. Mae'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau i'w hystyried yn ystod un o gyfarfodydd misol y panel wedi'i amlinellu isod. Yn ogystal, mae dyddiadau'r panel a'r dyddiad y caiff yr ymgeisydd wybod a yw'r cais wedi bod yn llwyddiannus ai peidio wedi'u nodi.

| **Dyddiad cau misol i gyflwyno ceisiadau (i'w derbyn cyn 5pm)** | **Cyfarfod y Panel – i ystyried ceisiadau ar:** | **Ymgeisydd yn cael gwybod beth yw'r penderfyniad erbyn:** |
|---|---|---|
| Dydd Llun 9 Hydref 2023 | Dydd Mawrth 17 Hydref 2023 | Dydd Mawrth 24 Hydref 2023 |
| Dydd Llun 6 Tachwedd 2023 | Dydd Mawrth 14 Tachwedd 2023 | Dydd Mawrth 21 Tachwedd 2023 |
| Dydd Llun 4 Rhagfyr 2023 | Dydd Mawrth 12 Rhagfyr 2023 | Dydd Mawrth 19 Rhagfyr 2023 |
| Dydd Llun 8 Ionawr 2024 | Dydd Mercher 17 Ionawr 2024 | Dydd Mercher 24 Ionawr 2024 |
| 12 Chwefror 2024 | Dydd Mawrth 20 Chwefror 2024 | 27 Chwefror 2024 |
| 11 Mawrth 2024 | Dydd Mawrth 19 Mawrth 2024 | 26 Mawrth 2024 |
| 8 Ebrill 2024 | Dydd Mawrth 16 Ebrill 2024 | 23 Ebrill 2024 |
| 6 Mai 2024 | Dydd Mawrth 14 Mai 2024 | 21 Mai 2024 |
| 10 Mehefin 2024 | Dydd Mawrth 18 Mehefin 2024 | 25 Mehefin 2024 |
| 8 Gorffennaf 2024 | Dydd Mawrth 16 Gorffennaf 2024 | 23 Gorffennaf 2024 |
| 12 Awst 2024 | Dydd Mawrth 20 Awst 2024 | 27 Awst 2024 |
| 9 Medi 2024 | Dydd Mawrth 17 Medi 2024 | 24 Medi 2024 |

**Sylwch** ni fydd y panel yn cynnal holl gyfarfodydd os yw'r holl gyllid wedi'i ddyrannu'n llawn i brosiectau yn gynt na dyddiadau'r cyfarfodydd. Hyn a hyn o gyllid sydd ar gael ac mae'n debyg y bydd galw mawr am y grant, felly anogir ymgeiswyr i gyflwyno eu ceisiadau yn fuan.

Caiff y ceisiadau eu hasesu ar sail y budd i'r ardal leol, yn cynnwys yr amgylchedd, ond gall lefel y grant (yn amodol ar reolau cymorth gwladwriaethol) fod yn gyfyngedig yn dibynnu ar faint a natur y prosiect arfaethedig, y bwlch hyfywedd neu gyfraniad ariannol y cwmni.

Byddai arian grant yn cael ei ddyrannu ar gyfer **isafswm o £500 hyd at fwyafswm o £10,000,** sy'n fwyafswm o 80% o gyfanswm cost y prosiect gyda'r gweddill i gael ei ariannu gan y sefydliad/grŵp/unigol sy'n ymgeisio.

Bydd y ceisiadau ar gyfer cyllid TCAEG yn cael eu hasesu'n llawn a bydd aelod o'r Tîm Adfywio yn cyflwyno argymhellion. Gall pob awdurdod lleol benderfynu ar y gyfradd ymyrryd yn seiliedig ar amodau'r farchnad leol, a darparu hyd at 80% o gymorth grant.

Penderfyniadau:

- Cymeradwyo
- Cymeradwyo gydag amodau
- Gwrthod – bydd cyfiawnhad llawn yn cael ei roi i unrhyw ymgeisydd y mae ei gais wedi'i wrthod.

## GRANT GWEITHGAREDDAU A DIGWYDDIADAU YNG NGHANOL Y DREF - PWY ALL WNEUD CAIS?

Mae'r Grant Gweithgareddau a Digwyddiadau yng Nghanol y Dref ar gael mewn 7 tref yn Sir y Fflint (Bwcle, Cei Connah, Y Fflint, Treffynnon, Yr Wyddgrug, Queensferry a Shotton).

Disgwylir mai prif ymgeiswyr a buddiolwyr y cynllun grant hwn fydd grwpiau gwirfoddol / cymunedol, cynghorau tref, sefydliadau elusennol a busnesau yng nghanol y dref. Disgwylir y bydd aelodau o sefydliadau buddiolwyr, trigolion lleol, ymwelwyr a busnesau eraill yng nghanol y dref yn elwa o'r gweithgareddau a'r digwyddiadau a ddarperir gyda'r cyllid grant.

## GRANT GWEITHGAREDDAU A DIGWYDDIADAU YNG NGHANOL Y DREF - FAINT CEWCH CHI WNEUD CAIS AMDANO?

Gallwch wneud cais am isafswm o £500 a mwyafswm o £10,000.

## GRANT GWEITHGAREDDAU A DIGWYDDIADAU YNG NGHANOL Y DREF - SUT I WNEUD CAIS

Gall grwpiau / sefydliadau / unigolion holi am y cyllid grant sydd ar gael drwy gysylltu â Thîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint ar: regeneration@flintshire.gov.uk . Os ydych chi'n gymwys, byddwch yn symud ymlaen i'r broses o lenwi'r ffurflen gais. Bydd cyngor ar gael ynglŷn â'r broses ymgeisio a bydd y tîm yn eich cefnogi drwy gydol y broses.

## GRANT GWEITHGAREDDAU A DIGWYDDIADAU YNG NGHANOL Y DREF - CANLLAWIAU AR GWBLHAU'R FFURFLEN

### Adran 1 – Crynodeb am yr Ymgeisydd a'r Prosiect

Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth am leoliad eich busnes, cost y prosiect, dyddiad arfaethedig y digwyddiad neu'r gweithgaredd.

Mae'n rhaid i chi gynnwys manylion unrhyw ffynhonnell ariannol arall (isafswm o 20%) a darparu tystiolaeth fel cyfriflen, cytundeb benthyciad neu unrhyw gytundeb arall megis cytundeb mewn egwyddor.

Mae'n rhaid i chi hefyd nodi statws unrhyw gyllid grant/benthyciad arall h.y. a ydych chi wedi'i sicrhau neu a ydych chi'n aros am benderfyniad. Rhowch fanylion os ydych yn dal i aros am benderfyniad.

O dan "Dyddiad y Digwyddiad / Gweithgaredd Arfaethedig" nodwch y dyddiad y bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal ac o dan "Lleoliad y Digwyddiad / Gweithgaredd Arfaethedig" nodwch yr holl gyfeiriadau lleoliad perthnasol.

### Adran 2 – Manylion Cyswllt

Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi a'ch busnes. Sicrhewch fod y manylion yn yr adran hon yn gywir a chyflawn.

### Adran 3 – Manylion Cyswllt Ymgeiswyr Ychwanegol

Mae'r adran hon yn gofyn am fanylion unrhyw ymgeisydd arall, er enghraifft os ydych chi'n gweithio mewn partneriaeth ag eraill.

**Adran 4 – Disgrifiad o'r Gweithgaredd/Digwyddiad**

Mae'r adran hon (4.1) yn gofyn i chi ddisgrifio eich digwyddiad / gweithgaredd. Fe ddylech chi gynnwys y canlynol:

- **Nodau ac amcanion clir:** yr hyn sydd arnoch chi eisiau ei gyflawni gyda'r grant a sut byddwch chi'n gwneud hynny.
- **Eglurhad o'r angen ar gyfer y digwyddiad/gweithgaredd (a oes problem rydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â hi yn defnyddio'r grant?)**

Yn adran 4.2 nodwch y trwyddedau a/neu'r caniatâd sydd eu hangen arnoch chi ar gyfer cynnal y gweithgaredd/digwyddiad hwn. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi gyfeirio at y Canllaw i Drefnwyr a ddarparwyd gan Gyngor Sir y Fflint gyda'r ffurflen gais.

Yn adran 4.3, amcangyfrifwch nifer y bobl rydych yn gobeithio eu denu i'r digwyddiad.

Yn adran 4.4, dylech nodi faint fydd y gost i'r mynychwyr neu os yw'r digwyddiad / gweithgaredd am ddim.

Mae adran 4.5 yn gofyn am eich cynllun busnes, fe ddylai hwn gynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut i gynnal y digwyddiad ar gyfer y dyfodol er mwyn gallu ei gynnal eto heb yr angen am grant. Nodwch hefyd os yw hwn yn ddigwyddiad untro.

Mae adran 4.6 yn gofyn i chi nodi pwy fydd yn cymryd rhan yn y gwaith o redeg y digwyddiad a dylech sicrhau eich bod yn llenwi'r tabl i ddangos cyfrifoldebau pob unigolyn.

Yn adran 4.7, gofynnir am wybodaeth ynglŷn â sut y byddwch yn hyrwyddo eich gweithgaredd / digwyddiad i sicrhau ei fod yn llwyddiannus. Mae'n rhaid darparu copïau o ddeunydd hyrwyddo i Gyngor Sir y Fflint fel tystiolaeth ar gyfer y grant pan fydd cais am daliad yn cael ei wneud.

Yn adran 4.8 beth yw'r canlyniadau arfaethedig ar ôl cwblhau'r prosiect? Pa ganlyniadau y bydd y prosiect yn eu cyflawni? Gweler y rhestr isod o'r canlyniadau y gellir eu hawlio: Mae'r tabl hwn hefyd yn dangos enghreifftiau o'r math o dystiolaeth a fydd ei hangen. Bydd gwybodaeth ynglŷn â phryd y bydd angen yr holl ddogfennau wedi'i nodi yn y llythyr cynnig.

| **Canlyniad / Allbwn Targed**<br>Noder - bydd yn rhaid dangos tystiolaeth o'r allbynnau targed i gyd sydd wedi'u cynnwys isod pan fyddwch chi'n hawlio'r grant drwy'r broses hawlio grant.<br>Cyfeiriwch at y ddogfen ganllaw atodol i nodi pa fath o wybodaeth/tystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer pob canlyniad/allbwn y caiff eu hawlio. | **Tystiolaeth i'w chyflwyno**<br>Cytunir ar y dystiolaeth sydd ei hangen mewn panel grant ar gyfer pob cais grant unigol. Gweler isod ddetholiad o'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer pob allbwn / canlyniad. |
|---|---|
| **Nifer y gweithgareddau/digwyddiad(au) a gynhaliwyd** o ganlyniad i'r cyllid grant a geisiwyd yn y cais hwn. | 1. **Lluniau o'r digwyddiad**<br>2. **Copïau o ddeunyddiau hyrwyddo** |
| **Nifer y bobl y disgwylir iddyn nhw ddod i'r digwyddiad(au)/gweithgareddau arfaethedig** | 1. **Lluniau o'r digwyddiad**<br>2. **Nifer y tocynnau a werthwyd (os codwyd tâl mynediad)**<br>3. **Dogfennau arwyddo i mewn / cofrestru digwyddiad wedi'u cwblhau** |
| **Nifer y gwirfoddolwyr i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio, cynnal, a chyflwyno adnoddau ar gyfer y gweithgaredd/digwyddiad** | 1. **Ffurflenni buddiolwyr wedi'u cwblhau ar gyfer pob gwirfoddolwr** |

| | |
|---|---|
| | 2. **Tystiolaeth o ohebiaeth / gohebiaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r gwirfoddolwyr am y digwyddiad** |
| **Nifer y sefydliadau i elwa o'r gweithgaredd/digwyddiad arfaethedig yn ogystal â chi/eich sefydliad** | 1. **Ffurflenni buddiolwyr wedi'u cwblhau ar gyfer pob sefydliad**<br>2. **Lluniau o'r sefydliadau a oedd yn rhan o'r digwyddiad / gweithgaredd**<br>3. **Dogfennau arwyddo i mewn / cofrestru digwyddiad wedi'u cwblhau** |
| **Nifer y deunyddiau hyrwyddo y cafodd eu cynhyrchu i hyrwyddo'r gweithgaredd/digwyddiad - yn ôl math** (h.y. mae cynhyrchu 100 o bosteri/taflenni yn un math o allbwn yn unig, byddai neges ar y cyfryngau cymdeithasol drwy Facebook yn fath ar wahân). | 1. **Copïau o bob eitem / deunydd hyrwyddo a gynhyrchwyd (mae lluniau neu sgrinlun yn dderbyniol).**<br>2. **Anfoneb(au) am unrhyw eitemau / deunyddiau hyrwyddo y talwyd amdanynt** |
| **Nifer y mannau gwyrdd (amwynderau/cyfleusterau) y cafodd eu creu neu eu gwella** o ganlyniad i'r cyllid grant a ddyfarnwyd. | 1. **Lluniau o'r gofod cyn ac ar ôl y gweithgaredd / digwyddiad**<br>2. **Lluniau o'r gwaith a wnaed yn ystod y digwyddiad / gweithgaredd**<br>3. **Anfonebau ar gyfer unrhyw nwyddau / gwasanaethau a gaffaelwyd** |
| **Cyfanswm y cyllid grant sydd wedi'i sicrhau** (dylai'r cyfanswm hwn fod yn gyfartal â swm y cyllid grant y gofynnir amdano yn y cais hwn). | **Bydd CSFf yn darparu tystiolaeth ar gyfer yr allbwn hwn.** |

**Adran 5 - Manteision ac Effeithiau**

Mae adran 5.1 yn gofyn am wybodaeth ynglŷn ag effeithiau'r gweithgaredd / digwyddiad a sut y bydd o fudd i ganol y dref a'r ardal gyfagos. Er mwyn i'ch cais gael ei ystyried gan y panel, bydd angen i chi ddangos bod eich gweithgaredd / digwyddiad yn cefnogi o leiaf 4 o'r 7 mantais.

Fe ddylai adran 5.1a gynnwys enghreifftiau o ddenu mwy o ymwelwyr i ganol y dref ac arddangos yr hyn sydd gan y dref i'w gynnig, denu mwy o fuddsoddiad i'r ardal a gwella'r ardal yn ei chyfanrwydd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

*5.1b Annog defnyddio dulliau teithio amgen* - gallai hyn gynnwys hyrwyddo defnydd cludiant cyhoeddus neu annog y gymuned i gerdded i'r digwyddiad neu weithgaredd.

*5.1c Annog ymdeimlad o falchder ymhlith pobl leol a gwella ymgysylltiad ymhlith pobl leol* - nodwch sut y bydd eich digwyddiad yn bodloni'r gymuned ac yn ennyn balchder yng nghanol y dref eto.

*5.1d Dod â buddion i fusnesau / sefydliadau lleol* - Sut mae eich digwyddiad / gweithgaredd yn dod â buddion i fusnesau a sefydliadau lleol? Er enghraifft, mwy o gwsmeriaid i fusnesau neu fwy o ymwybyddiaeth o'r busnesau sydd yn y dref.

*5.1e Cefnogi lles cymunedol mewn modd cadarnhaol* - Sut mae'r gweithgaredd / digwyddiad yn cefnogi lles y gymuned? Er enghraifft, mynd i'r afael ag unigrwydd a / neu ynysu, ymgysylltu â phobl ifanc, byw'n iach, dod â mwy o bobl o wahanol grwpiau oedran, diwylliannau, ethnigrwydd ac ati, at ei gilydd.

*5.1f Helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol* - A yw eich gweithgaredd / digwyddiad yn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y dref? Os felly, sut mae'n cyflawni hyn? Er enghraifft, gweithgareddau cymdeithasol sy'n ymgysylltu â phobl ifanc, fe allai mwy o bobl yn y dref atal ymddygiad gwrthgymdeithasol.

*5.1g Cynyddu nifer y bobl sy'n gwirfoddoli yng nghanol y dref / yn y gymuned leol* - Sut mae eich digwyddiad / gweithgaredd yn cyfrannu at wirfoddoli yng nghanol y dref / yn y gymuned leol? Er enghraifft, mwy o gyfleoedd i wirfoddoli, mwy o ddiddordeb mewn grwpiau gwirfoddol gyda chyfleoedd parhaus.

Yn adran 5.2 dylech gynnwys unrhyw fanteision eraill megis ymgysylltu â'r gymuned, pa fath o adloniant mae'r gweithgaredd yn ei ddarparu ac ati.

**Adran 6 – Cyflawni**

Mae adran 6.1 yn gofyn am dystiolaeth o'r trefniadau a wnaed ar gyfer eich gweithgaredd/digwyddiad. Pwy fydd rheolwr y prosiect ac yn arwain y gweithgaredd / digwyddiad gan sicrhau fod popeth yn cael ei gwblhau a bod yr holl drwyddedau perthnasol mewn lle (gweler Digwyddiadau - Canllaw i Drefnwyr). Mae'n ddefnyddiol i gynnwys cynlluniau llawn o sut y bydd y digwyddiad / gweithgaredd yn cael ei gynnal a'i reoli gan roi gymaint o fanylion a gwybodaeth â phosib.

Yn adran 6.2, gofynnir i chi restru'r risgiau allweddol rydych chi wedi'u nodi ar gyfer eich prosiect. Gofynnir i chi hefyd nodi sut y byddwch yn rheoli pob risg pe baent yn digwydd. Mae enghreifftiau o risgiau yn cynnwys y tywydd yn eich atal rhag cynnal y digwyddiad, hylendid bwyd heb gyrraedd safon gyfreithiol a derbyniol, cyflenwyr ddim ar gael ac ati. Gallech reoli / lleihau'r risg drwy aildrefnu'r digwyddiad pe bai tywydd garw neu fe allech reoli'r risg drwy gael lleoliad arall wrth gefn.

**Adran 7 – Costau'r Prosiect a Phecyn Cyllid**

Yn adran 7.1 mae'n gofyn am ddadansoddiad manwl o'r costau. Fe ddylech chi nodi, ble bo'n briodol, a yw TAW wedi'i gynnwys ai peidio. Mae'n ddefnyddiol i wybod pa eitem a delir amdano gyda'r grant a ddyfarnir a pha eitemau y byddwch chi'n talu amdanynt. Sicrhewch fod y cyfanswm ar gyfer yr HOLL eitemau o wariant yr un fath â'r cyfanswm yn adran 1. Mae hyn yn sicrhau na fydd unrhyw anghysondebau yn yr ystadegau ariannol pan fydd y cais yn cael ei gyflwyno i'r panel. Sylwch mai mwyafswm y cyllid grant sy'n cael ei ddyfarnu yw hyd at 80% o'r cyfanswm.

Sicrhewch eich bod yn ceisio dyfynbrisiau ar gyfer gwariant y digwyddiad / gweithgaredd cyn gwneud cais.

Dylai pob cais fod ar gyfer digwyddiadau newydd, fodd bynnag, gallwch ymgeisio am arian grant ar gyfer ymestyn digwyddiadau/gweithgareddau presennol a drefnwyd. Er enghraifft, gallai digwyddiadau blynyddol fyddai'n dymuno ymestyn eu digwyddiad dderbyn arian grant ond byddai hyn ar gyfer estyniadau yn unig ac nid ar gyfer y digwyddiad ei hun oedd yn bodoli'n flaenorol.

Yn adran 7.2, nodwch ar y calendr pryd yn union y bydd y costau yn cael eu codi a phryd y byddwch yn gallu hawlio'r cyllid grant. Fe allai hyn fod cyn y digwyddiad neu ar ei ôl. Er enghraifft, bydd rhaid talu rhai costau cyn y digwyddiad, megis blaendaliadau i gyflenwyr, os oes gennych anfoneb byddwch yn gallu hawlio'r arian cyn y digwyddiad.

**Adran 8 – Dogfennau Ategol**

Mae'r adran hon yn rhestr wirio i sicrhau eich bod chi wedi cynnwys yr holl ddogfennau angenrheidiol i ategu'ch cais. Dylech gynnwys pob dogfen mewn perthynas â chaniatâd ac yswiriant a chadarnhau a ydynt ynghlwm wrth y cais neu, os ydych yn dal i aros am benderfyniad, y dyddiad y byddant ar gael.

Mae yna hefyd adran ychwanegol ar gyfer unrhyw beth ychwanegol y tu allan i'r caniatâd a'r yswiriant sydd wedi cael eu cynnwys.

**Adran 9 – Cymorthdaliadau'r DU**

Nodwch unrhyw gymorth ariannol rydych wedi'i gael gan y Llywodraeth yn y pum mlynedd diwethaf.

**Adran 10 – Dyddiad a Llofnod yr Ymgeisydd**

Llofnodwch a rhowch y dyddiad ar y ffurflen gais. Derbynnir llofnod electronig.

**Adran 11 – Hysbysiad Preifatrwydd i'w Rannu â'r Holl Ymgeiswyr a Chyfranwyr**

Gwnewch yn siŵr bod pawb sydd wedi darparu eu manylion fel rhan o'ch cais wedi gweld ein Hysbysiad Preifatrwydd.